Cefnogi unigolion i symud a lleoli

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi’r gofynion ar gyfer yr adegau pan fyddwch yn cefnogi unigolion i symud a lleoli drwy weithio mewn partneriaeth â’r unigolyn drwy gydol yr amser. Mae hyn hefyd yn cynnwys paratoi eich hun, yr amgylchedd a chyfarpar cyn i chi gynorthwyo unigolion i symud a lleoli.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cael caniatâd a chael gafael ar wybodaeth am ofynion symud a lleoli unigolion
2. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i nodi a chytuno ar gymorth symud a lleoli, yn unol â dewisiadau, anghenion, a chynllun gofal neu gymorth unigolion
3. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i gytuno ar ddulliau a chyfarpar sydd eu hangen i gynorthwyo unigolion i symud a lleoli, yn unol â dewisiadau, anghenion, a chynllun gofal neu gymorth
4. gweithio mewn partneriaeth ag eraill i gynllunio, cyflawni, a chydlynu'r gwaith o symud a lleoli
5. gwisgo esgidiau a dillad addas i gynorthwyo unigolion i symud a lleoli
6. sicrhau bod dulliau atal a rheoli heintiau, a chyfarpar diogelu personol, yn cael eu defnyddio
7. paratoi amgylcheddau i gynorthwyo unigolion i symud a lleoli
8. casglu a pharatoi'r cyfarpar sydd ei angen i gynorthwyo unigolion i symud a lleoli
9. annog a chefnogi annibyniaeth unigolion i symud a lleoli
10. cynorthwyo unigolion i symud a lleoli mewn ffyrdd sy'n lleihau poen, anghysur a ffrithiant
11. cynorthwyo unigolion i wneud yn siŵr bod eu safle yn cwrdd â'u dewisiadau a'u hanghenion o ran cysur
12. sicrhau bod amgylcheddau'n cael eu gadael yn daclus ac yn ddiogel
13. glanhau a dychwelyd cyfarpar, gan ei adael yn barod i'w ddefnyddio y tro nesaf
14. cyfrannu at gofnodion ac adroddiadau sydd eu hangen i gynorthwyo unigolion i symud a lleoli
15. myfyrio ar sut y gwnaethoch gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau i gynorthwyo unigolion i symud a lleoli, gydag adborth gan eraill

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut mae cael gafael ar wybodaeth am ddewisiadau ac anghenion yr unigolyn, a gofynion ei gynllun gofal neu gymorth, ar gyfer symud a lleoli, a'i hadolygu
2. dylanwad diwylliant a chefndir ar y cymorth mae unigolion ei angen ar gyfer symud a lleoli
3. sut mae annog a chefnogi annibyniaeth unigolion i symud a lleoli, a pham fod hyn yn bwysig
4. cyfyngiadau unigolion o ran symudedd, a sut mae eu cynorthwyo i symud a lleoli
5. sut mae cyflyrau iechyd yn gallu effeithio ar symud a lleoli unigolion
6. sut mae'r corff yn symud ac effeithiau ansymudedd ar gyhyrau, cymalau, poen, anghysur a mannau pwyso
7. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar y cymorth mae unigolion ei angen i symud a lleoli
8. effaith bosibl o gwympiadau a sut i'w hatal
9. pwysigrwydd symud a lleoli'n gywir o ran cyfanrwydd y croen a briwiau pwyso
10. y mathau o gyfarpar y gellir ei ddefnyddio i gefnogi unigolion i symud a lleoli, gan gynnwys defnyddio dyfeisiau ac adnoddau digidol
11. pwysigrwydd sicrhau bod cyfarpar yn lân, yn gweithio'n dda, ac yn cael ei ddefnyddio'n gywir
12. pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth ag eraill i gynllunio, cyflawni, a chydlynu symudiadau
13. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma i gefnogi unigolion i symud a lleoli
14. dulliau o roi cymorth corfforol diogel i unigolion wrth symud a lleoli
15. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi wrth gefnogi unigolion i symud a lleoli
16. sut mae cefnogi rheoleiddio emosiynol wrth symud a lleoli
17. sut mae sicrhau hylendid dwylo effeithiol a defnyddio cyfarpar diogelu personol i symud a lleoli unigolion, a pham fod hyn yn bwysig
18. pam a sut y dylid paratoi amgylcheddau a'u gadael yn daclus ac yn ddiogel wedyn
19. sut y gall newidiadau i ddewisiadau, amodau ac amgylchiadau effeithio ar y ffordd mae unigolion yn cael eu symud a'u lleoli
20. y cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen i gefnogi unigolion i symud a lleoli

21. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a’r canllawiau perthnasol ar gyfer cefnogi unigolion i symud a lleoli
22. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth gefnogi unigolion i symud a lleoli
23. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill i gefnogi unigolion i symud a lleoli
24. sut mae ymateb i faterion a phryderon a allai godi wrth gefnogi unigolion i symud a lleoli
25. sut mae eich profiadau personol a’ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth gefnogi unigolion i symud a lleoli, a sut i fynd i'r afael â hyn
26. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth gefnogi unigolion i symud a lleoli

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

Cefnogi unigolion i symud a lleoli

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD213 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Symud, Lleoli, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |